



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Morfa Nefyn
Morfa Nefyn
Pwllheli
Gwynedd
LL53 6AR**

Dyddiad yr arolygiad: Medi 2015

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/11/2015

Cyd-destun

Mae Ysgol Babanod Morfa Nefyn ym mhentref Morfa Nefyn ger Pwllheli, Gwynedd ac mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal gyfagos.

Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 8 oed. Trosglwydda'r disgyblion i ysgolion cynradd cyfagos ar ôl Blwyddyn 3. Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a phrif gyfrwng y dysgu a'r addysgu. Fe addysgir Saesneg yn ffurfiol ym Mlwyddyn 3. Oddeutu 80% o'r disgyblion ddaw o gartrefi ble siaredir Cymraeg. Nid oes yr un plentyn o gefndir ethnig lleiafrifol.

Derbynnir plant i'r dosbarth meithrin, yn amser llawn, ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Yn ystod yr arolygiad, roedd 47 o blant ar gofrestr yr ysgol. Fe'u haddysgir gan ddwy athrawes amser llawn ac un rhan amser.

Mae oddeutu 6% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Ychydig iawn o'r disgyblion sydd ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Mae'r nifer yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth ym mis Medi 2008. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ebrill 2011.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Babanod Morfa Nefyn yn 2015-2016 yn £4,305. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £12,116 a'r lleiafswm yw £2,981. Mae Ysgol Babanod Morfa Nefyn yn y 35ain safle allan o'r 98 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Rhagorol
Rhagolygon gwella'r ysgol	Rhagorol

Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn rhagorol oherwydd:

- Bod bron bob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd arbennig ac yn cyflawni'n arbennig o dda
- Bod ansawdd gwaith llafar y disgyblion ar draws yr ysgol yn ardderchog
- Bod safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth yn uchel a bron bob un o'r disgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu
- Bod profiadau dysgu cyfoethog ac ysgogol ac addysgu dychmygus ac effeithiol yn cymell bron bob un o'r disgyblion i ddysgu ac ymfalchïo yn eu gwaith
- Bod ethos teuluol, gofalgar a chroesawgar iawn lle mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus ac yn cael eu trin â pharch
- Bod y cymorth a'r cyfarwyddyd rhagorol yn cyfrannu'n sylweddol at les disgyblion ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar y dysgu

Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn rhagorol oherwydd:

- Bod y pennaeth â gweledigaeth glir, yn seiliedig ar hybu safonau uchel iawn, sydd wedi cael ei chyfleu'n llwyddiannus i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr
- Bod y llywodraethwyr yn defnyddio eu harbenigedd yn effeithiol iawn i sicrhau safonau da iawn ar draws yr ysgol
- Bod pob aelod o staff yn gweithio fel tîm effeithiol ac yn deall eu rôl wrth weithredu cynlluniau'r ysgol
- Bod trefniadau hunanarfarnu pwrpasol yn adnabod blaenoriaethau addas sy'n rhoi pwyslais clir ar godi safonau
- Bod cydweithio effeithiol gydag ystod o bartneriaethau yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyflawniad disgyblion

Argymhellion

A1 Gwella presenoldeb

A2 Sicrhau ystod ehangach o gyfleoedd i ddisgyblion Blwyddyn 3 ddatblygu eu medrau ysgrifennu Saesneg ar draws y cwricwlwm

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Rhagorol

Safonau: Rhagorol

Mae canlyniadau asesiadau sylfaen disgyblion ar fynediad i'r ysgol yn dangos bod gan fwyaf y disgyblion fedrau islaw'r disgwyl, gyda'r Gymraeg yn iaith newydd i ychydig o'r disgyblion. Fodd bynnag, mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Mae bron bob un yn cyfranogi'n llawn yng ngweithgareddau'r dosbarth, ac yn adeiladu'n dda ar eu profiadau dysgu blaenorol. Erbyn trosglwyddo i'r ysgolion cynradd cyfagos ar ddiwedd Blwyddyn 3, mae bron bob disgybl wedi gwneud cynnydd ardderchog ym mhob maes dysgu.

Mae bron bob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n astud ar eu hathrawon yn ystod gwersi. Mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n fuan oherwydd y pwyslais cryf ar waith llafar. Mae ansawdd chwarae rôl yn nodweddiadol arbennig yn yr ysgol. Mae'r disgyblion yn datblygu ystod eang o eirfa ac idiomau'n gynnar iawn ac, erbyn Blwyddyn 3, yn eu defnyddio'n fedrus iawn wrth gyfathrebu iaith gyfoethog a choeth.

Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd ardderchog wrth ddysgu darllen. Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau darllen ar goedd ac yn gwneud hynny yn gynyddol hyderus. Mae disgyblion ym mlynnyddoedd cynnar y Cyfnod Sylfaen yn caffael dealltwriaeth dda o'r berthynas rhwng llythrennau a seiniau ac maent yn eu defnyddio'n dda i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn rhugl ac ystyrion gyda mynegiant clir gan ymateb yn effeithiol i ddeialog.

Mae safonau ysgrifennu Cymraeg rhan fwyaf y disgyblion o safon uchel ar draws yr ysgol. Maent yn defnyddio agoriadau gwahanol i'w brawddegau ac idiomau cloi trawiadol i ddiweddu eu storïau. Nodweddiadol ragorol yw'r defnydd o ystod amrywiol o atalnodi. Erbyn i'r disgyblion gyrraedd Blwyddyn 3, mae bron bob un yn ysgrifennu'n estynedig mewn ystod eang o wahanol gyfryngau gan ddefnyddio ansoddeiriau a chymariaethau amrywiol i gyfoethogi'r gwaith. Enghraifft dda o hyn yw'r gwaith ar erthyglau a phortreadau. Mae bron bob un o'r disgyblion yn gwneud defnydd cyson ac effeithiol o'u medrau llythrennedd mewn amrywiol feysydd ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 3 yn meithrin hyder cynyddol gyda'u gwaith llafar Saesneg ac mae eu medrau darllen yn datblygu'n dda. Maent yn ysgrifennu'n drefnus gan gyflwyno syniadau a gwybodaeth yn gywir ac yn effeithiol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyflwyno eu gwaith yn daclus.

Yn y Cyfnod Sylfaen ac ym Blwyddyn 3, mae gan bron bob disgybl afael gadarn ar fedrau rhifedd, gan eu defnyddio'n effeithiol i ddatrys problemau bob dydd. Maent yn defnyddio strategaethau adio, tynnu, rhannu a lluosu syml yn hyderus wrth ddatrys problemau geiriol a heriau rhifiadol. Maent yn defnyddio offer ac unedau mesur safonol yn gyson gywir yn eu tasgau. Mae bron bob un yn casglu ac yn dehongli data yn hyderus. Mae y rhan fwyaf yn egluro canlyniadau a gweithdrefnau'n hynod effeithiol gan ddefnyddio geirfa fathemategol goeth. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau rhifedd yn llwyddiannus iawn ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft yn y gwaith ar drychfilod ac wrth fesur tyfiant mewn planhigion.

Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion (deg neu lai) yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnod yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol. Yn ogystal, mae'r niferoedd yn rhy fach i wneud cymhariaeth ystyrion rhwng disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o dair blynedd, mae perfformiad yr ysgol o ran llythrennedd ar y deilliant disgwylidig (deilliant 5) a'r deilliant uwch (deilliant 6) wedi gosod yr ysgol yn gyson yn y 25% uchaf o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Yn gyffredinol, yr un yw'r patrwm mewn mathemateg, ar wahân i berfformiad ar y deilliant disgwylidig (deilliant 5) yn 2014, ble gosodir yr ysgol yn y 25% isaf.

Lles: Digonol

Mae bron bob disgybl yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer y corff yn rheolaidd. Maent yn cymryd rhan frwdfrydig mewn chwaraeon yn ystod gwersi ac yn ystod clwb cadw'n heini a chlwb rhedeg 'Dal i Fynd'.

Mae safon ymddygiad yn uchel iawn ac mae'r holl ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dangos parch at ei gilydd ac at oedolion. Maent i gyd yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n cydweithio'n hynod o effeithiol, yn annibynnol ac mewn grwpiau. Dangosant fwynhad a balchder yn eu gwaith gan ddyfalbarhau ar eu tasgau am gyfnodau estynedig. Erbyn Blwyddyn 3, dangosant wybodaeth dda am eu cryfderau gan egluro'n hyderus yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae bron bob un o'r disgyblion yn datgan eu bod teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn dweud eu bod yn cael eu trin gyda pharch ac yn medru troi at unrhyw oedolyn, ffrindiau neu'r 'Bydis Buarth' am gymorth pan fo angen.

Mae'r disgyblion yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd priodol i leisio barn a mynegi pryder. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn cwrdd yn rheolaidd ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Maent yn casglu barn a sylwadau cyd-ddisgyblion yn effeithiol ac yn falch o'u hymdrechion i godi arian er budd elusennau fel Plant Mewn Angen a Thrwynau Coch.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n sylweddol i'r gymuned ehangach. Maent yn ymfalchïo ar y cyfle i wasanaethu a diddori trigolion y pentref drwy gymryd rhan mewn gwasanaethau a chyngherddau.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon. Fodd bynnag, dros y pedair blynedd diwethaf, mae lefelau presenoldeb wedi bod yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Rhagorol

Profiadau dysgu: Rhagorol

Mae gan yr ysgol gynlluniau gwaith ysgogol, sydd yn tanio brwdfrydedd ac yn ysgogi pob disgybl. Maent yn ymateb yn llawn i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm

Cenedlaethol a'r maes llafur cytun ar gyfer addysg grefyddol. Agwedd arbennig ar y ddarpariaeth yw'r trefniant arloesol a wneir i rannu ardaloedd dysgu o fewn y dosbarthiadau, yn ogystal â'r defnydd blaengar a wneir o'r ardal allanol. O ganlyniad, mae hyd yn oed y disgyblion ieuengaf yn fuan ar ôl cychwyn yn yr ysgol yn hyderus wrth ddewis a symud o un gweithgaredd i'r llall, a hyn heb fawr o arweiniad gan yr athro.

Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi ei ymgorffori'n gadarn yng nghynlluniau'r ysgol. Mae hyn yn nodwedd arbennig sy'n arwain at safonau uchel. Gwna'r ysgol ddefnydd rhagorol o staff cynorthwyol i gefnogi a datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn defnyddio eu medrau yn hynod o effeithiol mewn sawl maes. Fodd bynnag, cyfyng yw'r ystod o gyfleoedd i ddatblygu medrau ysgrifennu Saesneg disgyblion Blwyddyn 3 ar draws y cwricwlwm.

Cymraeg yw cyfrwng naturiol bywyd a gwaith yr ysgol sy'n hybu hyfedredd dwyieithog yn ardderchog. Mae cyfleoedd i ddatblygu medrau llafar y disgyblion yn ragoriaeth yn yr ysgol, gyda'r staff yn rhoi pwyslais cadarn i'w datblygu yn rheolaidd drwy'r dydd. Trwy waith trawsgwricwlaidd ac ymweliadau a chyfleoedd i gystadlu mewn eisteddfodau, caiff y disgyblion gyfleoedd arbennig i ddysgu am eu hardal ac am hanes a diwylliant Cymru.

Trwy ystod eang o weithgareddau cyfoethog, mae disgyblion yn cael cyfle i ddysgu sut i fyw mewn modd cynaliadwy. Mae'r cyngor eco yn cydweithio'n effeithiol iawn gyda disgyblion ar draws yr ysgol i annog ailgylchu a lleihau gwastraff. Mae'r disgyblion yn gallu dangos empathi am fywydau pobl mewn gwledydd eraill, er enghraifft drwy gael cysylltiad ac ymweliad gan ddinesydd o Nairobi.

Addysgu: Rhagorol

Mae ansawdd yr addysgu yn gyson uchel gyda'r athrawon yn dangos gwybodaeth ardderchog o ofynion y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae rhagoriaeth i'w gweld yn y modd mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau cyffrous ac arloesol sy'n sbarduno disgyblion i weithio'n galed, yn enwedig yn annibynnol. Maent yn esbonio syniadau newydd mewn dull ystyrlon a pherthnasol ac yn ymestyn y dysgu drwy brofiadau real. Mae'r athrawon yn holi'n dreiddgar er mwyn ehangu dealltwriaeth y disgyblion ac yn eu hannog i ddefnyddio eu medrau meddwl drwy gydol y wers.

Mae'r athrawon yn defnyddio ystod eang o ddulliau addysgu ac adnoddau yn feddylgar iawn i gynorthwyo'r dysgu. Maent yn rhannu'r amcanion dysgu yn glir ac yn trafod meini prawf llwyddiant gyda'r disgyblion yn gyson yn ystod y gwersi. Mae cyfraniad staff cynorthwyol at ansawdd dysgu'r disgyblion yn sylweddol, gyda phob aelod o staff yn modelu iaith yn effeithiol iawn.

Mae'r staff yn sefydlu perthynas waith arbennig sy'n meithrin dysgu llwyddiannus. Mae gan yr athrawon ddisgwyliaid uchel iawn ac mae'r disgyblion i gyd yn deall hyn. Mae cyffro amlwg i'r gwersi a'r gweithgareddau'n llifo'n effeithiol.

Gwna'r athrawon ddefnydd medrus o ystod o strategaethau asesu. Maent yn cynnig adborth llafar defnyddiol yn ystod gwersi. Mae enghreifftiau da o farcio pwrpasol ac anogir disgyblion i fanteisio ar y cyfle i wella eu gwaith trwy ymateb i sylwadau craff yr athro. Mae gweithdrefnau da yn eu lle i ddarparu cyfleoedd i'r disgyblion werthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion, yn gynnar iawn yn deall pa mor dda maent yn ei wneud a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion, gan gynnwys defnydd rhagorol o brofion safonol ac asesiadau athrawon. O ganlyniad, mae athrawon yn deall anghenion y disgyblion yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth i osod targedau heriol ac i ddarparu tasgau diddorol er mwyn iddynt symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu.

Mae trefniadau addas ar gyfer adrodd i rieni am gynnydd a chyflawniad eu plant ac maent yn bodloni'r gofynion statudol yn llawn.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae ansawdd y gofal, cymorth a'r arweiniad yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles y disgyblion. Mae darpariaeth ardderchog ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae athrawon yn adnabod anghenion dysgu ychwanegol y disgyblion yn gynnar ac yn cynllunio strategaethau ymyrraeth effeithiol iawn ar eu cyfer. Mae hyn yn eu galluogi i wneud cynnydd da iawn. Mae staff yn paratoi cynlluniau addysg unigol yn fanwl ac yn cynnwys barn y rhieni a'r disgyblion yn y broses.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn hynod o effeithiol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y parch a ddangosant at ei gilydd a thuag at oedolion. Mae perthnasedd cadarnhaol yn arwain at ymddygiad da iawn gan yr holl ddisgyblion. Nodwedd arbennig yn ystod cyfnodau o gyd-addoli yw gallu disgyblion o bob oedran i fyfyrion. Gwahoddir ymwelwyr yn gyson i arwain yr addoli ac mae cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrion ar bynciau cyfoes megis gofalu am yr amgylchedd. Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf a chefnogol gyda nifer o wasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol sy'n sicrhau cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel i ddisgyblion a rhieni. Enghraifft dda o hyn yw'r gefnogaeth a geir gan y gwasanaeth iaith a lleferydd i ddisgyblion sydd ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo yfed a bwyta yn iach ac yn darparu cyfleoedd niferus er mwyn hybu ffitrwydd. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Nodwedd arbennig o'r ysgol yw'r ethos teuluol sy'n bodoli ynddi. Mae'n gymuned gynhwysol a gofalgwr iawn lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel.

Mae pwyslais amlwg ar sicrhau cyfle cyfartal a mynediad llawn i'r cwricwlwm eang i'r holl ddisgyblion. Mae parch at wahaniaeth a chydarddoldeb hiliol yn cael ei hyrwyddo yn llwyddiannus drwy waith amrywiol, gan gynnwys wrth astudio gwledydd tramor.

Mae ystod amrywiol o offer ac adnoddau o ansawdd da yn yr ysgol sy'n cael eu defnyddio'n hynod o effeithiol. Mae'r manau dysgu allanol wedi eu datblygu mewn modd creadigol er mwyn gwneud defnydd effeithiol iawn o'r gofod sydd ar gael ac i wella profiadau dysgu a chwarae'r disgyblion.

Mae arddangosfeydd symbylus a deniadol o waith athrawon a chyflawniadau a llwyddiannau'r disgyblion yn y dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol yn creu amgylchedd ddysgu ddiddorol, gan gefnogi'r dysgu yn effeithiol. Maent hefyd yn ennyn balchder y disgyblion yn eu gwaith. Mae safon glanweithdra yn uchel ac mae adeilad a thir yr ysgol yn cael eu cynnal a chadw'n dda. Mae safle'r ysgol yn ddiogel ar gyfer y disgyblion.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Rhagorol
--	-----------------

Arweinyddiaeth: Rhagorol

Mae arweinyddiaeth flaengar a chadarn y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth bwrpasol sy'n cael eu rhannu'n llwyddiannus gyda chymuned yr ysgol. Mae'n rhannu cyfrifoldebau'n effeithiol ac mae ganddi rôl allweddol mewn hybu cydweithio a rhannu arfer dda gyda nifer o ysgolion eraill. Mae athrawon yn ymweld â'r ysgol i arsylwi arferion rhagorol; er enghraifft, y ffordd mae'r ysgol yn datblygu medrau llafaredd disgyblion a chynllunio gweithgaredd a thasgau diddorol ac amrywiol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Mae'r pwyslais ar waith llafar yn nodwedd arbennig sydd yn sicrhau bod disgyblion yn meithrin iaith gyfoethog yn gynnar iawn. Mae'r effaith i'w gweld yn glir ar safonau darllen ac ysgrifennu yn y ddwy iaith.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth dreiddgar o gryfderau'r ysgol ac o'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae aelodau o'r corff llywodraethol wedi defnyddio eu harbenigedd yn effeithiol iawn wrth gyfranu at arwain a chefnogi y ddarpariaeth ar gyfer rhifedd a llythrennedd. Mae hyn yn sicrhau cyfeiriad strategol cadarn iawn i'r ysgol ac yn cael effaith ardderchog ar gyrhaeddiad y disgyblion. Mae'r cynllun monitro sydd wedi'i fabwysiadu yn ddiweddar, wedi galluogi'r llywodraethwyr i arsylwi'r addysgu yn fwy systematig. Mae wedi sicrhau ymrwymiad pob llywodraethwr yn y broses arfarnu wrth iddynt ddod i farn sicrach ynghylch safonau gwaith a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn eu cyflawni'n arbennig o effeithiol. Maent yn cydweithio'n agos iawn fel tîm ac yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod a chynllunio ar y cyd. Maent hwythau, dan arweiniad y pennaeth, yn barod iawn i rannu arbenigeddau er lles y disgyblion. Mae'r cydweithio arbennig wedi sicrhau safonau uchel iawn dros amser hir.

Mae trefniadau rheoli perfformiad trylwyr yn cyfrannu at welliannau mewn addysgu a dysgu ac yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff trwy raglen o hyfforddiant perthnasol. Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol fel llythrennedd a rhifedd.

Gwella ansawdd: Rhagorol

Mae'r pennaeth yn sicrhau bod gan yr holl arweinwyr ymwybyddiaeth drylwyr o gryfderau a'r meysydd sydd angen eu datblygu. Mae gallu'r corff llywodraethol i herio data perfformiad yr ysgol, ynghyd â chyfraniad y cyngor ysgol i'r trefniadau hunanarfarnu, yn gryfderau amlwg yn yr ysgol. Mae llais y disgybl, trwy holiaduron cyngor ysgol a'r dadansoddiad ohonynt, a'r cyfleoedd dyddiol i ddisgyblion fynegi barn, yn dylanwadu'n gryf ar flaenoriaethau'r ysgol a thargedau personol y disgyblion. O ystyried eu hoed maent yn dangos aeddfedrwydd amlwg wrth iddynt lunio eu meini prawf llwyddiant eu hunain. Mae cyfraniad gweithredol y tîm llythrennedd a rhifedd, sy'n cynnwys y pennaeth a dau lywodraethwr, wedi arwain at adroddiad arfarnol cynhwysfawr ynglŷn â'r medrau hyn.

Mae prosesau hunanarfarnu yn drylwyr ac yn ystyried amrediad eang o dystiolaeth uniongyrchol fel arsylwadau gwersi, data perfformiad a barn rhieni ac eraill. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen fanwl ac arfarnol sy'n rhoi darlun eglur a gonest o sefyllfa'r ysgol ar hyn o bryd. Mae'r pennaeth yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir yn bwrpasol iawn ar gyfer gosod blaenoriaethau ar gyfer gwella. Gall yr ysgol ddangos bod hunanarfarnu wedi arwain at welliannau gweladwy mewn safonau a darpariaeth, yn arbennig mewn llafaredd a gwaith ysgrifennu estynedig.

Mae'r cynllun datblygu yn gynhwysfawr ac yn nodi targedau perthnasol a phenodol ac mae ynddo feini prawf llwyddiant sy'n canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau disgyblion. Mae'n rhoi amlinelliad clir o gyfrifoldebau staff, gofynion cyllidol a dulliau ar gyfer monitro cynnydd. Nodwedd ragorol yw'r modd y mae blaenoriaethau'r cynllun yn sail i osod targedau rheoli perfformiad ac i sicrhau hyfforddiant gwerthfawr i'r staff. Mae hyn yn sicrhau parodrwydd y staff i addasu a mireinio strategaethau a dulliau, ac i herio'u hunain ac eraill i wella'r ddarpariaeth a'r deilliannau. Enghraifft ardderchog o hyn yw'r modd mae'r ysgol yn hysbysu rhieni am dargedau eu plant a beth allant ei wneud i gefnogi eu dysgu ar ôl oriau ysgol. Mae hyn yn sicrhau cydweithio llwyddiannus iawn.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaethau strategol sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion ac yn ymestyn y profiadau dysgu'n effeithiol.

Mae gan yr ysgol berthynas gref â rhieni sy'n cyfrannu symiau sylweddol o arian yn rheolaidd ar gyfer darparu adnoddau a thalu am dripiâu ac ymweliadau addysgol. Mae'r ysgol yn hysbysu'r rhieni'n dda am weithdrefnau'r ysgol ac wedi sefydlu gwefan sy'n gyswllt defnyddiol.

Mae'r ethos agored a chroesawgar yn llwyddo i ddatblygu partneriaethau cadarn gyda'r gymuned. Mae'r cysylltiadau da â chymdeithasau a busnesau lleol yn cyfoethogi'r profiadau dysgu yn effeithiol. Gwna'r ysgol ddefnydd cyson o gymorth unigolion o'r gymuned i gyfrannu at brofiadau a chefnogi gweithgareddau'r disgyblion, er enghraifft hyfforddi yn y clwb coginio. Mae'r cydweithio agos gyda busnesau lleol yn hwyluso datblygiad medrau busnes y disgyblion yn llwyddiannus iawn.

Mae cysylltiadau gwerthfawr gyda'r cylch meithrin lleol yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym yn yr ysgol. Mae cydweithio pwrpasol gyda'r ysgolion cynradd cyfagos yn sicrhau profiadau trosglwyddo esmwyth i ddisgyblion ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r arweinwyr yn rheoli adnoddau yr ysgol yn effeithiol. Mae digon o staff addysgu a staff cynorthwyol profiadol er mwyn ymdrin â phob agwedd o waith yr ysgol. Mae cyfraniad a chefnogaeth y cymorthyddion dosbarth yn gryfder yn yr ysgol. Maent yn cynnig cynhaliadau gwerthfawr i athrawon ac yn dylanwadu'n gadarnhaol at wella cyrhaeddiad y disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu athrawon wedi ei threfnu'n dda a gwnânt ddefnydd pwrpasol o'u hamser. Mae trefniadau rheoli perfformiad trylwyr ar gyfer holl aelodau'r staff yn cyfrannu'n llwyddiannus at welliannau yn y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth, a chaiff hyfforddiant ei gynllunio'n ofalus mewn perthynas â blaenoriaethau'r ysgol ac anghenion unigolion.

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu effeithiol. Mae'r nifer o rwydweithiau dysgu yn cynnig ystod eang o gyfleoedd priodol i athrawon a chymorthyddion gydweithio ar brosiectau defnyddiol. Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad proffesiynol staff yn arbennig ar gyfer strategaethau i ddatblygu medrau'r disgyblion.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro a rheoli gwariant yn ofalus. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i wella'r ddarpariaeth ymhellach ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Mae'r ysgol yn rheoli adnoddau dysgu ac addysgu'n dda ac mae'r adeilad a'r tir yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial.

O ystyried y deilliannau uchel, mae'r ysgol yn cynnig gwerth rhagorol am arian.

Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

6612075 - YSGOL BABANOD MORFA NEFYN

Nifer y disgyblion ar y gofrestr	50
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd	6.0
Grŵp PYD	1 (PYD<=8%)

Cyfnod Sylfaen

	2012	2013	2014
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2	11	6	8
Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)	100.0	100.0	87.5
Chwartel meincnod	1	1	3
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)			
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	*	*	*
Chwartel meincnod	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	*	*	*
Chwartel meincnod	*	*	*
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)			
Nifer y disgyblion yng ngharfan	11	6	8
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	100.0	100.0	100.0
Chwartel meincnod	1	1	1
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	72.7	66.7	62.5
Chwartel meincnod	1	1	1
Datblygiad mathemategol (MDT)			
Nifer y disgyblion yng ngharfan	11	6	8
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	100.0	100.0	87.5
Chwartel meincnod	1	1	4
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	45.5	66.7	62.5
Chwartel meincnod	1	1	1
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iaith ddiu y lliannol (PSD)			
Nifer y disgyblion yng ngharfan	11	6	8
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	100.0	100.0	100.0
Chwartel meincnod	1	1	1
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	100.0	66.7	75.0
Chwartel meincnod	1	2	2

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarterl meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarterl meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarterl meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.

<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym>

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	13	13 100%	0 0%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		64%	33%	3%	1%		
My child likes this school.	13	13 100%	0 0%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		73%	25%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	13	12 92%	1 8%	0 0%	0 0%	0	Cafodd fy mhentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		73%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	13	13 100%	0 0%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		63%	34%	3%	1%		
Pupils behave well in school.	13	13 100%	0 0%	0 0%	0 0%	0	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		48%	47%	4%	1%		
Teaching is good.	13	13 100%	0 0%	0 0%	0 0%	0	Mae'r addysgu yn dda.
		62%	35%	2%	0%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	13	13 100%	0 0%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		65%	33%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	13	10 77%	3 23%	0 0%	0 0%	0	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		50%	42%	6%	2%		
Staff treat all children fairly and with respect.	13	13 100%	0 0%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		61%	34%	4%	1%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	13	13 100%	0 0%	0 0%	0 0%	0	Caiff fy mhentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		61%	37%	2%	0%		
My child is safe at school.	13	13 100%	0 0%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		67%	31%	1%	0%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	13	12 92%	1 8%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		56%	38%	4%	1%		
I am kept well informed about my child's progress.	13	11 85%	2 15%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn.
		50%	40%	8%	2%		
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	13	13 100%	0 0%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		63%	31%	4%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	13	11 85%	2 15%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		49%	42%	8%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	13	13 100%	0 0%	0 0%	0 0%	0	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		58%	39%	2%	0%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	13	12 92%	1 8%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		53%	41%	5%	1%		
There is a good range of activities including trips or visits.	13	12 92%	1 8%	0 0%	0 0%	0	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		55%	38%	5%	1%		
The school is well run.	13	13 100%	0 0%	0 0%	0 0%	0	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		62%	33%	3%	2%		

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Mervyn Lloyd Jones	Arolygydd Cofnodol
Hazel Hughes	Arolygydd Tîm
Meleri Cray	Arolygydd Lleyg
Elen Mary Jones	Arolygydd Cymheiriaid
Nia Wyn Williams	Enwebai

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeiliant 1 i ddeiliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deiliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deiliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deiliant disgwylidig (deiliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.